# Cynnwys


## 1 Cyflwyniad

1.1 Pwrpas
1.2 Cefndir y prosiect
1.3 Archwiliad sirol gan Bartneriaeth Fframwaith Plant & Phobl Ifanc Powys
1.4 Ymrwymiad cenedlaethol

## 2 Gwybodaeth Ardal

2.1 Am Bowys & Bro Ddyfi
2.2 Ffeithiau ac ystadegau allweddol
2.3 Bro Ddyfi & Chymunedau yn Gyntaf

## 3 Archwiliad o'r gweithgareddau a gwasanaethau presennol

3.1 Methodoleg
3.2 Ffynonellau gwybodaeth
3.3 Proffil o'r gweithgareddau a gwasanaethau presennol
3.4 Diffiniad o wasanaethau gofal plant i blant o dan 8
3.5 Darpariaeth gofrestredig
3.6 Darpariaeth anghofrestredig
3.7 Addysg & Hyfforddiant
3.8 Ymateb proffesiynol i'r ddarpariaeth bresennol ym Mro Ddyfi

## 4 Dadansoddiad o Angen

4.1 Ymgynghori â'r gymuned
4.2 Holiaduron
4.3 Anghenion plant / pobl ifanc
4.4 Llyfr Syniadau a Chynllun Gweithredu Cymunedau yn Gyntaf

## 5 Canfyddiadau Allweddol

## 6 Argymhellion i'w gweithredu

## 7 Casgliad

## 8 Cyfeiriadau

***Archwiliad & Dadansoddiad Anghenion o weithgareddau a gwasanaethau i blant a phobl ifanc (0-19 oed) ar draws Bro Ddyfi. (Machynlleth, Llanbrynmair, Glantwymyn & Cadfarch)***

# 1 Cyflwyniad

## 1.1 Pwrpas

**Amcanion** - Pwrpas y prosiect hwn yw:

- Adnabod lefel bresennol y ddarpariaeth i'r grwpiau targed
- Amlygu bylchau mewn gwasanaethau / gweithgareddau
- Ymgynghori â chroestoriad o blant a phobl ifanc lleol i sefydlu eu barn am welliannau dichonol
- Cydlynu â sefydliadau plant/ieuenctid statudol a gwirfoddol i sicrhau persbectif aml-asiantaethol.

**Nod** – bydd y prosiect yn nodi'r canlynol:

- Natur y gweithgaredd – Gwasanaethau Chwarae, Adloniant, Hamdden a Gofal Plant
- Ystod oedran
- Lleoliad daearyddol a chanolfan
- Cost
- Manylion cyswllt
- Ymaelodi/cymryd rhan
- Iaith

**Budd ychwanegol:**

- Awgrymiadau am welliannau i ystod o wasanaethau / gweithgareddau
- Ffactorau sy'n rhwystro mynediad
- Cyfleoedd lleol / rhanbarthol arfaethedig i blant/pobl ifanc

## Gorolwg dros y prosiect:

- Bydd MCCP Cyf. yn ymgynghori â chroestoriad o blant/pobl ifanc lleol - yn ymweld â grwpiau gan wahodd sylwadau ac awgrymiadau drwy holiaduron priodol i oedran / dyddiaduron fideo / adborth llafar / tystiolaeth lluniau ac yn y blaen

- Bydd MCCP Cyf. yn llunio arolwg a fydd yn sylfaen i ymgynghoriad, wedi'i arwain gan oedolion, i gynorthwyo gyda mesur yr adborth gan deuluoedd ifanc sydd â phlant bach.

- Bydd MCCP Cyf. yn nodi a chofnodi manylion grwpiau / gweithgareddau i blant/pobl ifanc ar draws Bro Ddyfi.

- Bydd MCCP Cyf. yn cydlynu â mudiadau plant /pobl ifanc i benderfynu cyfleoedd , mentrau, strategaethau ac amcanion allweddol a allent fod o fudd i'r gr_p targed.

- Drwy weithio'n agos â Gwasanaeth Ieuenctid Cyngor Sir Powys, a phobl ifanc nad ydynt yn ymwneud ag unrhyw fath o ddarpariaeth ieuenctid ar hyn o bryd, bydd MCCP Cyf. yn cofnodi'r ffactorau a nodwyd sy'n rhwystro pobl ifanc rhag cael gafael ar wasanaethau/gweithgareddau.

- Bydd MCCP Cyf. yn darparu rhestr o argymhellion ar gyfer gwelliannau i'r lefel darpariaeth bresennol yn yr ardal

**Nodwch, lle cyfeirir at 'Bro Ddyfi' yn yr adroddiad hwn, golygir ardaloedd penodol wardiau etholaethau Machynlleth, Glantwymyn, Cadfarch a Llanbrynmair.**

**Mae'r archwiliad a dadansoddiad o weithgareddau a gwasanaethau i blant a phobl ifanc (0-19 oed) ar draws Bro Ddyfi - Machynlleth, Llanbrynmair, Glantwymyn a Chadfarch, wedi cael ei ariannu gan Gymunedau yn Gyntaf Bro Ddyfi.**

communities first cymunedau yn gyntaf

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

## 1.2 Cefndir y prosiect

O'r prosiectau amrywiol a gynhelir gan asiantaethau yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc ym Mro Ddyfi roedd wedi dod yn amlwg bod nifer o bobl ifanc nad oeddynt yn ymwneud ag unrhyw fath o weithgaredd cymdeithasol tu allan i leoliadau addysg. Nodwyd bylchau penodol mewn darpariaeth ac yr oedd cynrychiolwyr o'r sectorau statudol a gwirfoddol yn awyddus i benderfynu yr achosion oedd yn rheswm am y diffyg cymryd rhan hwn.

Adroddodd gweithiwr prosiect o Gronfa Achub y Plant a oedd yn edrych ar sefydlu gwasanaeth ieuenctid gwell ym Mro Ddyfi, ac a oedd wedi bod yn gweithio yn yr ardal ers Haf 2006 nad oedd niferoedd sylweddol o bobl ifanc yr oedd ef wedi dod i gyswllt â hwy yn mynychu unrhyw fath o ddarpariaeth ieuenctid yn yr ardal. Roedd eraill yn credu bod nifer o resymau pam fod eu gallu i gael mynediad at ystod ehangach o weithgareddau cymdeithasol wedi'i gyfyngu gan ffactorau oedd yn cynnwys natur wledig yr ardal/cludiant, costau ac oedran. Drwy weithio'n agos â Gwasanaeth Ieuenctid Cyngor Sir Powys, tybiwyd y byddai 'Gweithiwr Ieuenctid Ymestyn Allan' yn fuddiol i weithio gyda'r gr_p hwn o bobl ifanc ac yn y pen draw, i sefydlu rhyw fath o ddarpariaeth a oedd yn bodloni eu hanghenion cymdeithasol/hamdden.

Hefyd, ar yr un pryd, nododd Prosiect Plant Machynlleth Cyf - elusen leol a sefydlwyd i ddarparu chwarae a gofal plant i blant 0-12 oed, yr angen am ddarpariaeth allan o'r ysgol i bobl ifanc ar ddechrau eu harddegau, yr oedd eu rhieni yn gweithio yn ystod y dydd, gyda llawer ohonynt heb drefniadau 'gofal' ffurfiol wedi'u trefnu ar eu cyfer pan ddeuent adref ar ddiwedd y diwrnod ysgol. Mae'r gwasanaeth gofal ar ôl ysgol a chlwb chwarae Haf a ddarperir gan MCCP cyf yn darparu ar gyfer plant 4-12 oed a nodwyd, pan fydd y plant yn cyrraedd eu pen-blwydd yn ddeuddeg oed, disgwylir iddynt adael y croeso cyfarwydd a ddarperir gan y Clwb a dychwelyd i gartref gwag i ofalu amdanynt eu hunain. Wedi siarad â'r bobl ifanc a brofodd hyn cytunwyd nad oedd realiti'r sefyllfa mor ddeniadol â hynny yn y tymor hir, er bod newydd-deb y sefyllfa yn apelio at lawer ar y dechrau.

Roedd staff prosiect 'Kidzone', clwb *chwarae mynediad agored** newydd yn darparu ystod o weithgareddau chwarae i blant 8-12 oed un bore Sadwrn y mis, yn casglu gwybodaeth hefyd am anghenion chwarae/hamdden heb eu bodloni plant a phobl ifanc yr ardal fel rhan o broses werthuso a fyddai'n cael ei hadrodd yn ôl drwy'r Ganolfan Plant Integredig ym Mro Ddyfi. Roedd y rhai oedd yn mynychu yn gofyn am fwy o gyfleoedd chwarae am ddim, o dan arweiniad plant ond gyda goruchwyliaeth oedolion, lle gallent fynd a dod fel y mynnent. Sylweddolwyd fod amodau ariannol yn cyfyngu ar amlder y gweithdai, er mai dyma'r math o ddarpariaeth yr oedd plant ei heisiau.

Ac felly**,** yn Awst 2006, bu cyfarfod o weithgor yn cynnwys cynrychiolwyr o Wasanaeth Ieuenctid Cyngor Powys, Prosiect Plant Machynlleth, Cymunedau'n Gyntaf Bro Ddyfi, Achub y Plant a'r Strategaeth Gymunedol Leol i drafod dulliau o ymdrin â'r materion hyn.

Cytunwyd y gofynnid i MCCP Cyf gynnal archwiliad cynhwysfawr o'r gweithgareddau a gwasanaethau presennol, wedi'i ariannu gan Cymunedau yn Gyntaf Bro Ddyfi, ynghyd â dadansoddiad anghenion yn dilyn ymgynghoriad â chroestoriad o gymuned Bro Ddyfi yn cynnwys plant, pobl ifanc a'u rhieni. Wedyn, gellid defnyddio'r wybodaeth hon i lunio sail swydd Gweithiwr Ieuenctid 'ymestyn allan' - gyda'r dasg o edrych ar ddulliau o ddatblygu gwasanaethau presennol a/neu greu darpariaeth newydd. Bwriad y darn gwaith hwn yn ei gyfanrwydd fyddai sicrhau bod hawliau sylfaenol plant a phobl ifanc yr ardal hon yn cael eu bodloni, fel yr amlinellir yn 'Natganiad y CU am Hawliau Plant' (*gweler yr atodiad*) a phapurau gwyn dilynol Llywodraeth Cynulliad Cymru. ***Chwarae mynediad agored:** gweithgareddau dewis rhydd: 8-16 oed, gyda staff, am ddim i'r plant/pobl ifanc.*

## 1.3 Archwiliad sirol gan Bartneriaeth Fframwaith Plant & Phobl Ifanc Powys

Ym Medi 2006 gwnaeth Partneriaeth Fframwaith Plant & Phobl Ifanc Powys archwiliad cynhwysfawr o anghenion gan gofnodi gwybodaeth ystadegol am wasanaethau a gweithgareddau cynhwysfawr o blant a phobl ifanc rhwng 0 a 19 oed ar draws y sir.

Cynhaliwyd yr archwiliad hwn yn dilyn ymgynghori uniongyrchol gyda'r gr_p targed drwy ymweliadau ag ysgolion, holiaduron ar lein a thrafodaethau gyda'r Fforwm Ieuenctid. Casglwyd gwybodaeth gan lawer o asiantaethau a darparwyr gwasanaeth oedd yn gweithio'n uniongyrchol â'r gr_p oedran 0-19 oed a chymerwyd data ystadegol manwl iawn o ffynonellau i lunio gorolwg o fywyd pobl ifanc yn tyfu i fyny a byw ym Mhowys.

Cymharwyd yr wybodaeth ystadegol hon â ffigyrau cenedlaethol, gan nodi'n glir agweddau cadarnhaol a negyddol y ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc yn yr ardal. Roedd y diffygion i'w cynnwys mewn cynllun gweithredu ieuenctid a'u defnyddio fel dangosyddion llinell waelod i weithio tuag at wella gwasanaethau ar draws y sir. Ar ben y meysydd a bennwyd fel gwelliannau gofynnol, roedd yr adroddiad hwn yn dangos llwyddiant prosiectau penodol ym meysydd iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg.

Crynhowyd y casgliadau a gafwyd o'r archwiliad hwn fel a ganlyn:**:**

- **Materion cludiant** – roedd pobl ifanc yn teimlo fod gweithgareddau y dymunent gael gafael arnynt ond roeddynt yn cael eu rhwystro oherwydd diffyg gwasanaethau cludiant defnyddiol

- **Arian/ Costau** – diffyg gweithgareddau fforddiadwy

- **Trefn dewis addysg** – pobl ifanc yn symud allan i gwblhau eu haddysg

- **Cyngor gyrfaoedd**- nodwyd diffyg gwybodaeth gryno, o ansawdd

- **Dim 'Mannau Cyfarfod'** – ychydig o gaffis rhyngwe ayyb i bobl ifanc gyfarfod/cael cyngor

- **Dim 'Canolfan Wybodaeth' –** diffyg canolfan ar gyfer cyngor/gwybodaeth hanfodol

- **Gweithgaredd corfforol -** gostyngiad yn niferoedd plant 0 - 19 oed yn ymarfer yn rheolaidd

- **Bwlio/Diogelwch Cymunedol**

- **Gofal Plant –** diffyg gofal plant fforddiadwy yn ystod a thu allan i dymhorau ysgol

- **Tai –** diffyg gwybodaeth a thai fforddiadwy lleol = allfudo

- **Anabledd –** Gwasanaethau annigonol i blant/pobl ifanc gydag anghenion ychwanegol

Nid yw'r archwiliad a dadansoddiad angen lleol hwn ym Mro Ddyfi yn ceisio herio'r farn a gynrychiolir yn Archwiliad Angen PFfPPIP 2006 ond mae'n cyflwyno persbectif mwy lleol

am y materion a nodwyd yn yr archwiliad sirol. Er mwyn osgoi dyblygu nid yw'r adroddiad hwn yn cynnwys yr ystadegau ardal manwl y gellir cyfeirio atynt yn Archwiliad Angen y Partneriaeth Fframwaith.

Cost
Trefn wael o ran Dewisiadau
Diffyg cyngor gyrfaoedd
Dim ‘Mannau cvfarfod’
Angen tai mwy fforddiadwy
Dim digon o weithgaredd corfforol
Diffyg gofal plant
Angen darpariaeth mwy cynhwysol
Rhwydwaith gludiant wael
Diogelwch cymunedol / Bwlio
PFfPPhlP (Powys)
Archwiliad 2006
Dim canolfan wybodaeth

## 1.4 Ymrwymiad Cenedlaethol

Er mwyn deall egwyddorion ‘chwarae’ yn ei ystyr ehangach a'r hyn y mae yn ei olygu i blant a phobl ifanc ym Mro Ddyfi ac yn wir, Cymru fel cenedl, mae'n hollbwysig penderfynu beth yw dehongliad gwasanaethau ‘chwarae,’ ‘gofal plant’ a ‘hamdden’ fel y nodir hwy gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac fel y maent yn cael eu cydnabod gan yr asiantaethau sy'n cymryd rhan yn eu cyflwyno.

Drwy ddeall hawliau pob plentyn a pherson ifanc yn llawn, gallwn fesur yn realistig drwy'r archwiliad lleol hwn ac ymchwil lefel sirol y lefel o ddarpariaeth yr ydym yn ei chynnig ar hyn o bryd ym Mro Ddyfi a cheisio cywiro'r diffygion a nodir. Felly, cyfeiriwyd at sawl polisi a strategaeth allweddol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn amlinellu hawliau a'r weledigaeth ar gyfer plant a phobl ifanc fel sail i'r prosiect hwn ac yr ydym angen gweithio tuag at yr amcanion hyn.

Tra bo demograffeg, daearyddiaeth ac economeg i gyd yn cyfrannu at strwythur y gymuned yr ydym yn byw ynddi, ni ddylai'r ffactorau hyn rwystro pobl ifanc rhag cael gafael ar weithgareddau a gwasanaethau y mae ganddynt hawl iddynt. Arweiniodd trafodaeth o faterion o'r fath gyda phlant, pobl ifanc, rhieni a darparwyr gwasanaeth ym Mro Ddyfi lif o deimladau negyddol tuag at ddarpariaeth chwarae, gofal, hamdden a chymdeithasol yn yr ardal hon. Ni fyddai'n wir dweud eu bod yn anhapus gyda'r gwasanaethau presennol sydd ar gael, ond roeddynt yn aml yn gwneud sylwadau am ddiffyg dewis, problemau mynediad, pryderon am gynhwysiant a materion costau. Drwy ailedrych ar hawliau plant 0-19 oed a'u teuluoedd yn y fan hon, mae'n dod yn amlwg, fel cymuned, mae'n rhaid i ni ddod o hyd i ddulliau sy'n ymdrin â'r materion hyn er mwyn cynorthwyo darparwyr gwasanaeth sy'n cyflwyno'r ddarpariaeth eisoes ar lawr gwlad ac i gefnogi'r rhai sydd eisiau datblygu mentrau cymdeithasol neu ymestyn gwasanaethau presennol.

Ym mis Tachwedd 2000, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ‘Plant a phobl ifanc: Fframwaith ar gyfer Partneriaeth’. Dechreuodd hwn gydag ymrwymiad i Ddatganiad y Cenhedloedd Unedig am Hawliau Plant yn gosod allan y ffordd y dylid darparu ar gyfer plant a phobl ifanc.

**Mae Erthygl 31 y Datganiad** yn dweud:

**‘Mae gan blant yr hawl i orffwys a hamdden ac i ymuno mewn gweithgareddau chwarae a hamdden sy'n briodol i oedran y plentyn ac i gymryd rhan yn rhwydd mewn bywyd diwylliannol a'r celfyddydau’**.

Mae'r cyfrifoldeb yn perthyn i ni oll, ar bob lefel, i sicrhau fod yr hawl sylfaenol hwn yn cael ei wireddu. Fel rhan o'i ymrwymiad i blant yng Nghymru, roedd Llywodraeth y Cynulliad yn amcanu at ddarparu cyfres o fesurau gwelliant yn ymwneud â phartneriaethau awdurdodau lleol, y Gwasanaeth Iechyd, y sector gwirfoddol ac asiantaethau lleol eraill i ymdrin â hawliau plant a phobl ifanc. Canolbwyntiwyd ar wrando ar eu hanghenion - a oedd yn cynnwys ymgynghori mwy uniongyrchol a phenodi Comisiynydd Plant i Gymru i arwain y ffordd ar gefnogi hawliau plant a sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu hystyried ar lefel llunio polisi. Roedd y drefn arian grant i gael ei hystyried hefyd, gan amcanu at wneud y drefn yn haws i dalu awdurdodau lleol. Sefydlwyd ‘Y Ddraig Ffynci’ fel mudiad cenedlaethol i gynrychioli plant & phobl ifanc.

Gweithredwyd mentrau allweddol pellach ers hynny i sicrhau fod **pob** plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd yn unol â'i hawl o dan Ddatganiad y CU.
I greu dogfen waith trosodd Llywodraeth Cynulliad Cymru yr hawliau hyn i **'Hawl Cyffredinol'**

Mae hwn yn dweud fod gan bob plentyn (0-10) yng Nghymru hawl sylfaenol i'r **'Saith Amcan Craidd' canlynol:**

- **Dechrau da mewn bywyd a'r sail gorau bosibl ar gyfer eu twf a datblygiad yn y dyfodol;**
- **mynediad at weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliant;**
- **Peidio cael eu hanfanteisio gan dlodi plant;**
- **Mwynhau'r iechyd corfforol a meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol gorau posibl, yn cynnwys rhyddid rhag camdriniaeth, erledigaeth a cham-fanteisio;**
- **Cartref a chymuned ddiogel sy'n cefnogi lles corfforol ac emosiynol;**
- **Mynediad at ystod gynhwysfawr o gyfleoedd addysg, hyfforddiant a dysgu yn cynnwys caffael sgiliau [personol a chymdeithasol hanfodol;**
- **Yn cael gwrandawiad a'u trin â pharch gan gydnabod eu hunaniaeth hiliol a diwylliannol**

Ar ben hynny, cyflwynwyd **'Y Deg Hawl'** yn dweud fod gan bobl ifanc (11-25 oed) hawl sylfaenol i:

- **Addysg, hyfforddiant phrofiad gwaith wedi'u teilwra i'w anghenion;**
- **Sgiliau sylfaenol sy'n agor drysau i fywyd llawn a hybu cynhwysiant cenedlaethol;**
- **Ystod eang ac amrywiol o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gwirfoddoli a dinasyddiaeth weithredol;**
- **Gwasanaethau a chyfleusterau o ansawdd uchel, ymatebol a hygyrch;**
- **Cyngor ac arweiniad gyrfaoedd annibynnol, arbenigol a gwasanaethau cefnogi a chynghori myfyrwyr;**
- **Cefnogaeth a chyngor personol - lle a phryd fo'u hangen ar ffurfiau priodol - gyda rheolau clir am gyfrinachedd;**
- **Cyngor am iechyd, budd-daliadau tai a materion eraill mewn lleoliadau hygyrch a chroesawgar;**
- **Cyfleoedd hamdden a chymdeithasol mewn amgylchedd diogel a hygyrch**
- **Profiadau chwaraeon, celfyddydol, cerddorol ac awyr agored i ddatblygu talentau, ehangu gorwelion a hybu perspectif crwn yn cynnwys cyd-destunau cenedlaethol a rhyngwladol;**
- **Yr hawl i gael ymgynghori â hwy, i gymryd rhan mewn penderfyniadau ac i gael eu clywed am bob mater sy'n ymwneud â hwy neu'n effeithio ar eu bywydau.**

**Mewn amgylchedd lle mae:**

- **Ffocws cadarnhaol ar lwyddiant yn gyffredinol ac ar yr hyn sydd gan bobl ifanc i'w gyfrannu**
- **Ffocws ar adeiladu gallu pobl ifanc i ddod yn annibynnol, wneud dewisiadau a chymryd rhan yn y broses ddemocrataidd; ac**
- **Dathlu llwyddiant pobl ifanc**

(Wedi'u seilio ar Ddatganiad y CU am Hawliau Plant)

Gan adeiladu ar yr ymrwymiad hwn ymhellach, yn Hydref 2002, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru '**Bolisi Chwarae'**. Cynhyrchwyd y datganiad hwn i ddangos pwysigrwydd chwarae, cyfleoedd cymdeithasol a gweithgareddau hamdden i blant a phobl ifanc yng Nghymru.

Mae'r datganiad y **Polisi Chwarae** yn canolbwyntio ar yr egwyddorion canlynol:

- **bod hawl gan bob plentyn i ennyn parch am y cyfuniad unigryw o'i briodoleddau a'i alluoedd;**

- **y dylid parchu canfyddiadau, safbwyntiau a barn y plentyn bob amser gan fod pob plentyn yn perthyn i ddiwylliant ehangach;**

- **bod cael rhyddid i ddewis ei chwarae ei hun yn un o'r ffactorau pwysicaf o ran cyfoethogi dysgu'r plentyn a chyfrannu at ei les a'i ddatblygiad.**

Yn y polisi hwn diffinnir 'chwarae' fel:

***'bod chwarae'n ymddygiad y mae'r plentyn wedi'i ddewis o'i wirfodd, yn ei lywio ei hun ac yn ei wneud er ei fwyn ei hun. Mae'n cael ei wneud heb olwg ar unrhyw nod na gwobr allanol, ac mae'n rhan sylfaenol ac annatod o ddatblygiad iach - nid yn unig o ran y plant unigol, ond hefyd o ran y gymdeithas y maent yn byw ynddi.'.***

***'wedi'i ddewis o'i wirfodd'*** - mae plant eu hunain yn dewis pryd, sut a beth i'w chwarae.

***'yn ei lywio ei hun'*** – y plant eu hunain sy'n penderfynu'r rheolau a'r rolau y maent yn eu perfformio o fewn eu chwarae.

***'yn ei wneud er ei fwyn ei hun'*** – mae chwarae yn cael ei wneud er ei fwyn ei hun ac nid yw'n digwydd am unrhyw wobr, tystysgrif na statws

Mae'r Polisi Chwarae (2002) yn gosod allan gweledigaeth ac ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu cyfleoedd chwarae a chyfleoedd cymdeithasol parhaus i blant a phobl ifanc wrth atgyfnerthu'r syniad fod 'chwarae' yn gallu cymryd llawer o ffurfiau a fyddant yn cynnwys elfen o gymryd risg, a ddylid ei gymryd i ystyriaeth yn y broses gynllunio i sicrhau na fydd budd y cyfle chwarae yn cael ei golli, cysyniad sy'n anodd ei werthfawrogi yn yr hinsawdd 'mynd i gyfraith' presennol. Mae'n awgrymu fod chwarae yn naturiol ac yn awydd cynhenid, hanfodol i ddysgu plant a'u datblygiad cymdeithasol a'i fod yn parhau i fod yn ddefnyddiol i blant o bob oed. Heb fynediad ato, mae'r polisi yn casglu y byddai datblygiad a gallu dysgu plant yn cael ei rwystro. Mae hefyd yn argymell y dylid ystyried plant a'u hanghenion ar lefel llunio polisi ac y dylai unrhyw ddarpariaeth chwarae sy'n deillio o hynny gael ei ffurfio o'r anghenion hynny a nodwyd.

Yn dilyn y Polisi Chwarae hwn, cyhoeddwyd **'Cynllun Gweithredu Polisi Chwarae' (CGPCh)** yn Chwefror 2006 fel cynllun gweithredu yn gosod allan sut byddai amcanion y polisi chwarae yn cael eu gweithredu. Cyhoeddwyd y cynllun gweithredu yn Chwefror 2006 i gydlynu ymrwymiad presennol Llywodraeth Cynulliad Cymru i 'chwarae' yn ei ystyr ehangach drwy gynnig targedau manwl a phendant ar gyfer cyflwyno ei amcanion allweddol ar draws y sectorau chwarae, hamdden a gofal plant.

Yn adeiladu'n benodol ar gynllun strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru' o'r enw **'Gwell Cymru'** a'r datganiad polisi **'Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau,'** roedd y CGPCh yn gosod allan sut mae'r Polisi Chwarae yn perthyn ac yn cyfrannu tuag at strategaethau eraill y Cynulliad. Yn y CGPCh amlinellir camau i gefnogi datblygiad yr amcanion allweddol dilynol:

- **Annog mwy o ddarpariaeth chwarae:** mwy o ddarpariaeth chwarae awyr agored, wedi'i staffio
- **rôl ysgolion:** gwell defnydd o iardiau /caeau chwarae allan o oriau ysgol,
- **Chwarae yn y Gymuned:** cymunedau diogelach, darpariaeth chwarae cymunedol
- **Gwaith chwarae fel proffesiwn:** hyfforddiant gwaith chwarae priodol, wedi'i gyflwyno'n lleol
- **Rheoli risg a phryderon rhieni:** cymunedau mwy diogel, 'cydbwyso risg'
- **Chwarae ar draws y Cynulliad:** ymrwymiad parhaus i werth chwarae/gweithgaredd cymdeithasol

Mae '**Strategaeth Chwarae, Adloniant a Hamdden'** y Bartneriaeth Bobl Ifanc yn cael ei datblygu ar hyn o bryd a bydd yn siwr o adeiladau ar y CGPCh ar lefel sirol. Ar ben hynny archwiliad sirol 2006 **'Archwiliad o Angen' (Gweithgareddau a Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc)** mae archwiliad sirol llawn yn canolbwyntio'n benodol ar **'Chwarae'** yn cael ei baratoi i asesu lefelau darpariaeth chwarae ar draws Powys.

Mae nifer o ddatblygiadau diddorol yn cael eu trafod ar hyn o bryd a ddylent gynnig ystod ehangach o wasanaethau a gweithgareddau ar gyfer cymuned ehangach Bro Ddyfi yn cynnwys **'Campws Cymunedol'** a ddisgrifir fel *'adnodd dwyieithog o'r radd flaenaf a fydd yn rhoi gwasanaethau addysgol, cymunedol a gofal cymdeithasol mewn siop un stop sy'n hygyrch'.*

Bydd gweithredu prosiect braenaru **Bro Ddyfi** hefyd yn gweld cynlluniau i gynyddu cyfranogaeth mewn addysg 16 oed + a chodi lefelau cyrhaeddiad yn y gr_p hwn drwy adolygu cyflwyniad presennol cyfleoedd dysgu a hyfforddi. Byddai'n dod ag addysg 11+ uwchradd, lefel A, addysg alwedigaethol a chymunedol a darpariaeth addysg oedolion ynghyd, gyda darparwyr gwasanaethau dysgu/hyfforddiant eraill - wedi'i ragweld fel *'canolfan addysg gymunedol integredig' .*

Gydag arian y Loteri Fawr wedi'i ddiogelu am 3 blynedd o 2007, gall datblygiad pellach o'r **Canolfannau Plant Integredig** ym Mhowys barhau gyda'r gwasanaeth Bro Ddyfi yn hyrwyddo a chydlynu darpariaeth 'gofal cofleidiol' i blant, datblygiad cymunedol a hyfforddiant, chwarae mynediad agored ac addysg blynyddoedd cynnar. Gall y rôl cydlynydd gwybodaeth barhau i roi gwasanaeth arwyddo i rieni a gweithwyr proffesiynol yn y rhwydwaith, ceisio gwybodaeth a chyngor am chwarae lleol, gofal plant a gwasanaethau hamdden yn yr ardal.

**Mae'r 'Cyfnod Sylfaen'** yng Nghymru yn gwricwlwm newydd sy'n amlinellu meysydd allweddol o ddysgu dymunol i blant rhwng 3-7 oed ac yn gosod allan disgwyliadau uchel

y bydd plant o oedran cynnar yn tyfu a datblygu i'w potensial llawn. Mae addysg rhan amser cyn-ysgol am ddim yn cael ei darparu'n awr i blant 3 oed sy'n mynychu cyfleusterau gofal cofrestredig.

Er nad yw wardiau yng nghymuned Bro Ddyfi wedi cael eu cynnwys yn y rownd gyntaf o'i weithredu, mae cynllun **'Dechrau'n Deg'** yn cefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru o ddarparu'r dechrau gorau mewn bywyd i blant o'u genedigaeth i 3 blwydd oed ac mae'n rhaglen dreigl sy'n darparu gofal plant rhan amser wedi'i ariannu i blant dwy oed un ai mewn lleoliad Meithrinfa gofrestredig neu gyda gwarchodwr plant, gyda chefnogaeth rhianta ychwanegol a gofal cyn geni a rôl fwy i ymwelwyr iechyd. Un o'r blaenoriaethau uchaf ar y rhestr fydd sicrhau mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o ansawdd a hefyd darpariaeth sy'n ystyriol o anghenion diwylliannol ac ethnig y gymuned unigol. Mae'r fenter hon yn cael ei chyflwyno mewn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru, gyda Phowys yn canolbwyntio i ddechrau ar Ystradgynlais, a rhannau penodol yn Y Drenewydd a'r Trallwng. Penderfynwyd y flaenoriaeth ar gyfer cyflwyno'r cam cyntaf hwn yn ôl 'Mynegai Aml-amddifadedd Cymru (2005)' lle mae Bro Ddyfi yn cael ei dosbarthu yn is na'r ardaloedd a ddewiswyd.

Mae Dechrau'n Deg yn adeiladu ar lwyddiant prosiect **Cychwyn Cadarn'** i fabanod a phlant cyn oed ysgol a'u teuluoedd, a welodd brosiectau fel yr un a gyflwynwyd gan **Brosiect Plant a Theuluoedd Sir Drefaldwyn NCH** yn Llanbrynmair, Glantwymyn a Machynlleth yn cynnwys dosbarth Cymraeg i Rieni, rhaglenni llythrennedd a rhifedd fel y prosiect iaith/Rhif a Chwarae, cyrsiau Byw'n Iach, grwpiau cefnogi babis newydd (BABS), cyfarfodydd Ti a Fi wythnosol a chefnogaeth ychwanegol gan y gwasanaethau bydwreigiaeth ac ymwelwyr iechyd.

Mae **Genesis Cymru Powys** yn brosiect newydd sy'n amcanu at chwalu'r rhwystrau i hyfforddiant a gwaith i grwpiau targed drwy gynnig gofal plant am ddim neu gymhorthdal, gweithgareddau adeiladu hyder gyda darpariaeth gofal plant, cefnogaeth, gwybodaeth am ystod o faterion datblygiad personol, cyfleusterau creche teithiol, a gofal plant lleol, hyblyg i annog cyfranogaeth mewn digwyddiadau cymunedol ac yn y blaen. Mae'r rhaglen hon yn targedu pobl ifanc dros 16 oed, rhieni sengl a'r rhai sydd yn dymuno ail-hyfforddi, dysgu sgiliau newydd neu ailddechrau yn y farchnad lafur. Un flaenoriaeth allweddol yw recriwtio a chadw mwy o ofalwyr plant yn yr ardal. Gyda chefnogaeth Cydlynydd Gogledd Powys Genesis, trefnwyd nifer o ddigwyddiadau cymunedol ym Machynlleth dros y misoedd diwethaf.

Mae'r cynllun 5 mlynedd **'Cynllun Gweithredu Bwyd a Ffitrwydd' (2005***)* yn gosod allan rai o'r dulliau y mae Llywodraeth y Cynulliad yn helpu plant a phobl ifanc i fwyta'n dda, aros yn ffit a chyrraedd y safon uchaf bosib o ran iechyd. Mae gan Bro Ddyfi swyddog **Anghydraddoldebau Iechyd** lleol yn gweithio allano **Ganolfan Hamdden Bro Ddyfi**, yn cefnogi grwpiau cymunedol ac ysgolion i ystyried iechyd a lles y plant a phobl ifanc yn eu gofal a gweithio mewn partneriaeth i archwilio dulliau o ymdrin â'u hanghenion. Gyda chyfyngiadau ar bobl ifanc o ran cael gafael ar weithgaredd corfforol yn yr ardal wledig hon a chyda nifer o ffactorau economaidd-gymdeithasol yn atal teuluoedd rhag creu ffordd o fyw iach gytbwys i'w plant, mae llawer o waith i'w wneud o hyd yn yr ardal hon. Mae'r rhaglen nofio am ddim i blant o dan 16 oed yn ystod gwyliau'r haf yn ffordd boblogaidd o annog gweithgaredd corfforol yn ogystal â rhoi cyfleoedd am ryngweithio cymdeithasol gyda'u cyfoedion. Mae ffigyrau yn dangos bod cyfanswm o 971 gwryw a 1042 benyw rhwng 0 - 16 oed wedi manteisio ar y cynllun hwn yng Nghanolfan Hamdden Bro Ddyfi yn 2005.

Mae ystod eang o weithgareddau corfforol ar gael yn y Ganolfan Hamdden yn cynnwys rhaglenni chwaraeon cynhwysol, badminton, gwersi nofio, wal ddringo, pêl-droed 5 bob ochr, pêl-rwyd, bowlio, sboncen, hyfforddiant cylchol, triathlon a gymnasteg.

Mae **Bwrdd yr Iaith Gymraeg** yn ymrwymedig hefyd i gynnal a datblygu iaith a diwylliant Cymru ac mae wedi gweithredu **'Cynllun Gweithredu Iaith '** ar gyfer Bro Ddyfi i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd dwyieithrwydd ac i gefnogi a gwella gweithgareddau a gwasanaethau i blant a phobl ifanc. Yn ategu gwaith **'Twf',** rhaglen a luniwyd i hybu gwerth magu plant bach yn ddwyieithog, **Mudiad Ysgolion Meithrin** ac **Urdd Gobaith Cymru**, mae cefnogaeth ar gael i gyflwyno cyfleoedd chwarae a chymdeithasu dwyieithog a chyfrwng Cymraeg yn yr ardal hon.

Mae rhaglenni'r gwasanaeth llyfrgelloedd fel 'Dechrau Da', 'Cropian trwy lyfrau' 'Stori Sydyn' ac yn y blaen i gyd yn gweithio tuag at wella sgiliau llythrennedd plant a phobl ifanc. Mae **Llyfrgell Machynlleth** yn cadw ystod eang o lyfrau dwyieithog, DVDs ac adnoddau ac cheir mynediad at TG hefyd. Mae gwasanaeth llyfrgell deganau deithiol a weithredir gan **Chwarae Sir Drefaldwyn** yn darparu deunyddiau celf a chrefft am bris isel ac yn benthyg teganau/offer i grwpiau cymunedol a rhieni mewn pentrefi ar draws Bro Ddyfi yn ogystal â'r Lyfrgell Deganau sefydlog yn Nh_ Melfed.

Canolbwyntir ar welliannau cyfannol i les a datblygiad plant a phobl ifanc a'u hystyried yn fwy'n awr nag ar unrhyw adeg o'r blaen. Gyda'r ystod eang o raglenni cefnogi yn eu lle i leihau'r effaith negyddol ar fywydau plant, mae'n galonogol fod astudiaeth ddiweddar gan Sefydliad **Joseph Rowntree** yn dangos oherwydd gostyngiadau sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, mae canran y plant yng Nghymru sy'n byw mewn cartrefi incwm isel (mae ffigyrau'r Llywodraeth yn awgrymu oddeutu 1 allan o bob 4) yn awr tua'r un fath a chyfartaledd y DU yn gyffredinol. Mae'r strategaeth tlodi plant, **'Dyfodol Teg i'n Plant'** yn amlinellu'r syniad i ddatblygu cynllun gweithredu i ddiddymu tlodi plant erbyn 2020.

I ariannu'r ymrwymiad hwn mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi clustnodi tua £50 miliwn rhwng 2005-2008, yn bennaf trwy **'Cymorth'** a '**Chymunedau yn Gyntaf'**. Gwelir hyn fel buddsoddiad i frwydro yn erbyn tlodi plant a rhoi ansawdd bywyd gwell i blant o dan anfantais yng Nghymru. Mae cynllun 'Cymorth' Llywodraeth y Cynulliad– (Cronfa Cefnogi Plant a Phobl Ifanc) yn defnyddio gweithio mewn partneriaeth a buddsoddiad wedi'i dargedu mewn ardaloedd difreintiedig i gyflawni'r effaith fwyaf.

Mae darn pwysig o ddeddfwriaeth newydd ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghori - **'Deddf Gofal Plant 2006'** sy'n sail i'r strategaeth **'Ar gyfer Plant y mae Gofal Plant'** a gyhoeddwyd yn 2005. Egwyddorion craidd y ddeddfwriaeth hon yw:

- 'Disgwyliad cyfreithlon rhieni i gael gofal plant o safon i blant a'u teuluoedd'; a
- Cyfrifoldebau Awdurdodau Lleol am roi gwybodaeth i rieni a darpar rieni i'w cynorthwyo yn eu rôl fel rhieni.

Bydd y Ddeddf Gofal Plant yn gosod dyletswyddau statudol ar Awdurdodau Lleol i chwarae'r rhan arweiniol i gefnogi darparwyr gofal plant i fodloni gofynion rhieni yn eu hardal, yn benodol rhieni sy'n gweithio, plant gydag anghenion ychwanegol, y rhai sydd eisiau darpariaeth chwarae/darpariaeth gofal cyfrwng Cymraeg neu deuluoedd sy'n wynebu anfantais ariannol.

Byddai'r Cylchoedd Meithrin, y Feithrinfa Gymunedol, Gwarchodwyr Plant a darparwyr eraill ym Mro Ddyfi yn croesawu hyn.

Bydd mynediad at ofal fforddiadwy, gweithgareddau chwarae a dysgu, cymdeithasol a hamdden o ansawdd da yn rhoi'r sgiliau bywyd y mae ein plant a phobl ifanc eu hangen i chwarae rhan lawn a gwerthfawr mewn cymdeithas pan fyddant yn oedolion.

# 2 Gwybodaeth Ardal

## 2.1 Powys & Bro Ddyfi

Powys yw'r sir fwyaf yng Nghymru, yn ymestyn dros 5,197 cilometr sgwâr ac o ran maint mae'n agos at chwarter tir Cymru. Yn hanesyddol roedd tair sir, Brycheiniog, Maesyfed a Maldwyn a chrëwyd Powys yn 1974 fel rhan o ddiwygio llywodraeth leol. Aeth yn ei blaen i fod yn awdurdod unedol yn 1996. Mae 73 ward etholiadol ym Mhowys gyda 111 Cyngor Tref / Cymuned yn ffurfio 15 ardal fforymau cymunedol.

Mae Powys yng Nghanolbarth Cymru, ac mae'n ffinio ag un ar ddeg sir arall yng Nghymru a dwy sir yn Lloegr. Mae'n hir a thenau o ran siâp ac mae'n ymestyn o Eryri, Gwynedd yn y Gogledd i Gwm Tawe yn y De.

Mae Bro Ddyfi yn ymestyn o bentref Llanbrynmair ar draws ffin orllewinol Powys yn y brif dref, Machynlleth, ac yn ymestyn i Geredigion i'r gogledd o Aberystwyth, de Gwynedd ac ymyl ddeheuol Parc Cenedlaethol Eryri. Derbynnir yn gyffredinol mai dyma'r ffin naturiol rhwng De a Gogledd Cymru.

Mae Powys yn ardal wledig iawn ac er bod prydferthwch yr amgylchedd naturiol yn destun eiddigedd gan lawer o drigolion trefol, mae problemau yn codi i'r rhai sydd eisiau cael gafael ar wasanaethau, hyfforddiant, swyddi a gweithgareddau. Nid oes unrhyw ysbytai cyffredinol, dim canolfannau siopa mawr a chyfyngedig yw'r cyfleusterau addysg uwch. Mae Machynlleth yn daith tua hanner awr o'r dref agosaf.

Mae Mynegai Aml-Amddifadedd Cymru a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2005, yn cyfrif lefelau amddifadedd yng Nghymru. Nid yw ‘aml-amddifadedd’ yn ffurf benodol o amddifadedd - mae'n gyfuniad o ffurfiau penodol o amddifadedd y gellir eu mesur. Mae'r mathau o amddifadedd a fesurir ym Mynegai Cymru yn cynnwys incwm, gwaith, iechyd, tai, addysg, mynediad daearyddol at wasanaethau, trosedd a'r amgylchedd ffisegol a thlodi plant.

Mae Mynegai Aml-Amddifadedd Cymru yn dangos fod Powys yn gyffredinol yn un o'r siroedd mwyaf amddifad yn nhermau mynediad at wasanaethau. Machynlleth, Glantwymyn, Cadfarch a Llanbrynmair sy'n ffurfio ardaloedd etholiadol Ardal Gynllunio Machynlleth ac ym meysydd gwaith, addysg, incwm a thlodi plant roedd Machynlleth yn cael ei fesur yn sylweddol mwy amddifad na'r ardaloedd etholiadol cyfagos. Mae hefyd yn dangos sgorau amddifadedd sylweddol, o'u cymharu â gweddill Cymru, o ran tai, iechyd a mynediad daearyddol at wasanaethau.

Mae plant a phobl ifanc ym Mro Ddyfi sydd eisiau gofal iechyd arbenigol, addysg uwch, gwaith a gweithgaredd cymdeithasol yn teithio allan o'r sir i drefi mwy fel Aberystwyth neu Amwythig sydd hefyd yn cynnig cyfleusterau siopa a hamdden.

Er bod Bro Ddyfi yn cael ei nodi yn y Mynegai, nid yw'n cael ei ystyried ymhlith y rhai uchaf yn gyffredinol. Fodd bynnag, cafod ei phenodi'n Ardal ‘Cadwyn o Gymunedau Gwledig' Cymunedau yn Gyntaf.

Nid oes unrhyw draffyrdd ym Mhowys a dim ond ychydig o ffyrdd deuol. Wrth deithio ar y ffordd o'r De i'r Gogledd ar ochr orllewinol Cymru mae'n rhaid croesi Afon Dyfi ar ryw bwynt ac yna ddirwyn drwy rannau o Fro Ddyfi. Ychydig iawn o wasanaethau bysiau cydlynol rheolaidd sy'n gweithredu yn yr ardal hon er bod cynllun cludiant cymunedol yn ei le i roi cefnogaeth i'r henoed a'r anabl. Y prif reilffyrdd drwy Bowys yw:

Aberystwyth – Machynlleth – Amwythig – Birmingham
Machynlleth – Abermo – Pwllheli,
Amwythig – Llandrindod – Abertawe

Mae natur wledig yr ardal a'r gwasanaethau cludiant cyhoeddus anaml/annibynadwy yn creu dibynadwyaeth uwch ar geir i gael mynediad at wasanaethau, siopa, gwaith neu weithgareddau hamdden. Mae hyn yn ei dro yn cynyddu'r pwysau ar gyllidebau teuluoedd. Yn aml, gwelir ceir fel rhywbeth angenrheidiol i osgoi ynysigrwydd a dieithrio cymdeithasol yng nghefn gwlad.

Siaredir yr iaith Gymraeg yn eang ym Mro Ddyfi. Cofnododd cyfrifiad 2001 fod 57% o bobl leol yn gallu siarad Cymraeg gyda 79% o blant 5-9 oed yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl. Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi datblygu Cynllun Gweithredu Iaith ar gyfer Bro Ddyfi i gynnal a chynyddu'r lefel o Gymraeg a ddefnyddir bob dydd ac mae hwn yn cael ei weithredu'n lleol gan weithiwr datblygu a leolir ym Machynlleth. Mae mewnfudo pobl na ydynt yn siarad Cymraeg, yn neilltuol, wedi arwain at ardaloedd o raniad iaith yn y gymuned ac mae'n bwnc sydd yn cael ei ystyried ar hyn o bryd.

Mae'r gymuned gymdeithasol-economaidd leol yn wyneb nifer o heriau yn cynnwys:

- pellteroedd teithio hir i geisio gwaith, addysg a hyfforddiant
- rhwydwaith cludiant cyhoeddus cyfyngedig - yn cyfyngu mynediad at wasanaethau
- allfudo parhaus o bobl ifanc medrus
- lefelau incwm lleol yn llawer is na'r cyfartaledd cenedlaethol
- incwm ffermydd, gwaith fferm a swyddi gweithgynhyrchu yn gostwng
- diffyg swyddi proffesiynol /rheoli yn lleol
- Rhwystrau i gyflogaeth/hyfforddiant: gofal plant cyfyngedig, sgiliau llythrennedd/rhifedd gwael
- nifer cyfyngedig o adeiladau cymunedol /tir i gefnogi mentrau busnes lleol

Cludiant cyhoeddus cyfyngedig, heb ei gyfdlynu
Ychydig o gyfle am fenter busnes neu fentrau cymdeithasol
Pellter o wasanaethau
Allfudo pobl ifanc
Diffyg swyddi 'proffesiynol'
Rhwystrau i gyflogaeth a hyfforddiant
Heriau cymdeithasol - economaidd ym Mro Ddyfi
Lefelau incwm isel
Gostyngiad mewn diwydiant lleol

## 2.2 Ffeithiau Allweddol & Ystadegau

*Wedi'u seilio ar: Cyfrifiad 2001– Fforwm Gymunedol Lleol Powys & Machynlleth -* ***LC04***

- Powys yw'r cyngor mwyaf yng Nghymru yn ymestyn dros 5,197 cilometr sgwâr. Mae'n sir wledig iawn gyda llawer o ardaloedd mynyddig.

- Mae poblogaeth Powys yn 126,400 gyda chynnydd yn y boblogaeth o 6% rhwng Cyfrifiadau 1991 a 2001. Y rheswm pennaf am hynny oedd mewnfudo net gan oedolion wedi ymddeol. Bryd hynny, cofnodwyd cynnydd mewn allfudo oedolion iau.

- Os bydd patrymau mudo'r degawd diwethaf yn parhau bydd poblogaeth plant Powys yn gostwng yn barhaus. Y gostyngiad arfaethedig yn y boblogaeth plant (0-15 oed) erbyn 2016 i Sir Drefaldwyn fydd -13.8% gyda rhagfynegiad o ostyngiad o -11% i ardal Machynlleth. Mae gan Bowys ganran uwch o oedolion h_n mewn gwaith / wedi ymddeol a chanran sylweddol is o fabanod, plant a phobl ifanc. Yn 2001roedd maint cartrefi ar gyfartaledd yn **LC04** yn 2.30 o bobl.

- Mae maint daearyddol a dwysedd y boblogaeth yn cyfuno i wneud Powys y sir deneuaf ei phoblogaeth yng Nghymru a Lloegr gyda dim ond 25 o bobl y cilometr sgwâr.

- Ym Mhowys, dim ond Y Drenewydd yw'r unig dref gyda phoblogaeth o dros 10,000. Mae 15 prif dref arall a channoedd o bentrefi a phentrefannau bychain.

- Yng Nghyfrifiad 2001, dim ond 13% o drigolion Powys oedd yn nodi eu hunain fel Cymru gyda 44% o boblogaeth y sir yn cael eu geni tu allan i Gymru. Mae'r canran uchel hwn, fodd bynnag, yn cynnwys y rhai a anwyd i famau a oeddynt yn byw yng Nghymru ond a roddodd enedigaeth mewn ysbytai yn Lloegr. Yn **LC04** roedd 66% o'r trigolion wedi'u geni yng Nghymru; roedd 57% o bobl leol yn gallu siarad Cymraeg gyda 79% o blant 5-9 oed yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl.

- Roedd 4.11% o **drigolion LC04** yn rhieni sengl gyda phlant dibynnol.

- Er bod diweithdra yn cael ei gofnodi fel cymharol isel ym Mhowys a LC04 yn gyffredinol, mae'r cyflog ar gyfartaledd ac incwm teuluol yn parhau i fod ymhlith y rhai isaf yng Nghymru a Lloegr. Mae diffyg cyfleoedd gwaith gyda chyflog da yn **LC04** yn annog y tuedd i allfudo ymhlith oedolion iau.

- Cofnodwyd cartrefi yn **LC04** gyda char / fan fel 19%, gyda 45% yn berchennog ar 1 car/fan a 34.5% pellach yn berchnogion 2 neu fwy car/fan.

- Mae ystadegau cyfrifiad **LC04** yn cofnodi'r canlyniadau poblogaeth canlynol ar gyfer plant 0-19 oed

| **Cyfanswm Trigolion** | **Nifer (5060)** | **canran %** |
|---|---|---|
| | | |
| 0 i 14 oed | 870 | 17.25% |
| 15 i 19 oed | 278 | 5.49% |

## 2.3 Bro Ddyfi & Chymunedau yn Gyntaf

Mae ardal Cymunedau yn Gyntaf Bro Ddyfi yn cynnwys y rhan honno o Bowys sydd yn Nyffryn Dyfi, sef wardiau Machynlleth, Cadfarch, Llanbrynmair a Glantwymyn. Mae'n unigryw yng Nghymru am ei bod yn digwydd gofalu am yn union yr un ardal â Fforwm Strategaeth Gymuned Leol. Ni restrir Bro Ddyfi fel un o'r 100 ardal fwyaf difreintiedig yng Nghymru, ond mae wedi cael ei chynnwys yn rhaglen Cymunedau yn Gyntaf Llywodraeth Cynulliad Cymru fel ardal 'Cadwyn o Gymunedau Gwledig'. Mae Bro Ddyfi yn ardal Amcan 2 ac Amcan 3 ar gyfer arian Ewropeaidd. Nid yw Amcan 1 yn berthnasol i unrhyw ardal ym Mhowys. Mae Amcan 2 yn cefnogi mentrau ar sail busnes tra bo Amcan 3 yn cefnogi datblygiad sgiliau a photensial pobl.

Rhaglen Llywodraeth Cynulliad Cymru yw Cymunedau yn Gyntaf a'i nod yw cael gwared â thlodi a gwella bywydau pobl yn byw mewn rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Mae'n rhaglen tymor hir a fydd yn rhedeg am o leiaf deng mlynedd. Gyda chefnogaeth Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf a swyddogion lleol, bydd aelodau o'r cymunedau yn cael eu hannog i adnabod anghenion lleol a chymryd camau cadarnhaol i hyrwyddo newid.

Mae Cymunedau yn Gyntaf yn amcanu at annog pobl i gymryd rhan mewn gwella eu cymuned drwy roi cefnogaeth ariannol, gwybodaeth a chyngor. Yn gweithio'n uniongyrchol ag aelodau i geisio dulliau newydd o daclo pynciau gwledig, cymdeithasol ac , economaidd a llunio cynlluniau cynaliadwy i greu cymuned well i weithio a byw ynddi.

Mae nifer o grwpiau lleol yn gweithio mewn partneriaeth â Chymunedau yn Gyntaf i ffurfio rhwydwaith o wasanaethau sy'n ymrwymedig i adfywhau Bro Ddyfi. Gellir anfon syniadau am ddatblygiad cymunedol i'r Bartneriaeth i'w hystyried yn y broses cynllunio camau gweithredol.

Rhannwyd y cynllun gweithredol presennol a seiliwyd ar syniadau ac awgrymiadau a roddwyd mewn digwyddiadau ymgynghori â'r gymuned yn uniongyrchol i 24 is-bennawd. Yn ystod digwyddiad ymgynghori pellach amlygwyd y 7 prif gategori canlynol:

- **Economi & Gwaith**
- **Addysg & Hyfforddiant**
- **Cefn gwlad & Amgylchedd**
- **Iechyd & Lles Cymunedol**
- **Gweithgareddau Cymunedol**
- **Cludiant & Chyfathrebu**
- **Tai**

# 3 Archwiliad o'r gweithgareddau a gwasanaethau presennol

## 3.1 Methodoleg

Er mwyn diffinio gwasanaethau a gweithgareddau i bobl ifanc ar draws Bro Ddyfi (Powys) mor ddaearyddol gywir â phosibl, gan gymryd diffiniad gwledig yr ardal i ystyriaeth, rhennir yr wybodaeth yn ôl prif leoliad y mudiad/gr_p o dan y 3 pennawd canlynol:

- Machynlleth
- Glantwymyn/Cadfarch
- Llanbrynmair

Lle bynnag y bo'n briodol, rhoddir manylion gweithgareddau a gwasanaethau lleol yn cynnwys y canlynol:

- Enw'r darparwr gwasanaeth / gweithgaredd
- Natur y ddarpariaeth
- Ystod Oedran
- Lleoliad
- Cost £ – os yw'n briodol
- Manylion cyswllt
- Ymaelodi/cymryd rhan
- Yr iaith y mae'r gweithgareddau yn cael eu cyflwyno ynddi'n bennaf

Yn ogystal, cofnodir gwasanaethau cyffredinol / sirol o dan 1 pennawd:

- Gwasanaethau cyffredinol i blant a phobl ifanc

Tra bydd gan rai'r gwasanaethau a restrir gylch gwaith ehangach na'r hyn a nodir, i ddibenion yr archwiliad lleol hwn maent wedi eu cynnwys yn y ddogfen hon fel gwasanaethau sydd ar gael i blant a phobl ifanc yn yr ardal hon, ac sydd wedi cyflwyno prosiectau gweithredol yn y gymuned o fewn y 12 mis diwethaf. Mae nifer o wasanaethau cenedlaethol/sirol yn sefydlu prosiectau penodol mewn ardaloedd a dargedir e.e. Anghydraddoldeb Iechyd, Cychwyn Cadarn NCH, Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Nid yw hon yn rhestr gyflawn a rhoddir manylion yr wybodaeth sy'n berthnasol i'r archwiliad hwn yn unig. Nid ydym wedi cynnwys grwpiau crefyddol.

## 3.2 Ffynonellau gwybodaeth

Roedd gwybodaeth a roddwyd gan Wasanaeth Integredig Plant Bro Ddyfi yn sylfaen i'r archwiliad o wasanaethau a gweithgareddau lleol. Gofynnwyd yn uniongyrchol am wybodaeth ychwanegol i:

- Ofalwyr adeiladau cymunedol
- Plant & pobl ifanc (defnyddwyr gwasanaeth)
- Rhieni / Gofalwyr
- Gwasanaeth Gwybodaeth Plant
- Gwasanaeth Ieuenctid Powys
- Darparwyr gwasanaeth lleol
- Cyfeirlyfrau cyhoeddus
- Gwefan

Rhoddwyd gwybodaeth ar gyfer yr archwiliad hwn a'i derbyn yn ddidwyll a'i gwirio lle bynnag y bo hynny'n bosibl. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi y gall manylion amrywio oherwydd ffactorau fel gweithgareddau tymhorol, newid yn y manylion cyswllt, costau neu ddyddiau gweithredu ac yn y blaen.

Mae'r dystiolaeth a gofnodwyd yn gyfredol ar **20fed Mawrth 2007**.

Er mwyn dibenion Diogelu Data, ni roddir rhifau ffôn na chyfeiriadau cyswllt. Gallwch gael gwybodaeth fanylach drwy Wasanaeth Gwybodaeth Plant Cyngor Sir Powys neu Ganolfan Plant Integredig Bro Ddyfi.